Cylchlythyr Ysgol Terrig postterrig@hwbcymru.net
01352 770235




Annwyl Rieni/Dear Parents,

Wel mae tymor cyfan wedi mynd heibio a mae'r gwyliau bron yma.
Gawson ni ymweliad gan Estyn, a fe wnaeth y plant ddangos i'r arolygwyr pa mor dda ydynt. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth. Diolch hefyd i chi fel rhieni am yr hamper bendigedig wnaethoch roi fel rhodd i ni. Dyma rai o'r staff yn mwynhau!!!
Bydd yr adroddiad allan 9/1/2025.

We have had a really busy term and its now Christmas holidays.

We had a visit from Estyn and the children were so good. They really did us so proud. Also, thank you for your support, and for the amazing hamper we received, it was very much appreciated. This some of the staff enjoying the goodies!!!!
The report will be out 9/1/2025.






 postterrig@hwbcymru.net

Ar ôl yr arolwg cawsom wythnos prysur iawn iawn. Fe ddechreuodd yr wythnos gyda gwasanaeth Dydd Y Cofio yn Eglwys Santes Fair ar fore Sul. Diolch i Guy ac Isla am gymeryd rhan yn y gwasanaeth.
Ar y Dydd Llun fe aeth dosbarth Meillion a Clychau'r Gog i'r Senotaff i gofio am ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar Dachwedd 11ed 1918.

After the inspection we had such a busy week. We started the week with Remembrance Sunday Service at St Mary's Church. Thank you to Guy and Isla for taking part.
On the Monday Meillion and Clychau'r Gog class went to the Cenotaph to remember the end of the First World War on November 11th 1918



Aeth bechgyn a merched blwyddyn 3 a 4 i chwarae pêldroed yn nhwrnament yr

Year 3 and 4 boys and girls went to the Urdd Tournament to play football. It

Urdd. Roedd hi yn ddiwrnod braf iawn. Fe wnaeth y tîmau yn hynod o dda a diolch i chi gyd am fod yn blant mor dda yn ystod y diwrnod.

was a great day. Both teams did really well and played their little hearts out. Thank you for being so good on the day.

Yna aeth tîm cymysg 5 a 6 i chwarae pêl rhwyd yn Ysgol Nannerch. Twrnament ysgolion bach Sir Y Fflint a fe wnaethon nhw ennill. Da iawn chi a dwi yn gwybod fe wnaethoch chi gyd fwynhau

Then the netball team went to play a tournament at Ysgol Nannerch. This was a Flintshire small schools tournament. And they won! Well done and I know each and every one of you enjoyed the experience.




Aeth blwyddyn 1 a 2 ar daith i Jodrell Bank. Mae'r dosbarth wedi bod yn astudio Y Gofod yn ystod y Tymor. Fe gafodd y plant fynd i sioe Planetarium

Year 1 and 2 went on a trip to Jodrell Bank. They had been studying Space in class. They had a Planetarium show in the dome. It explained how night and

yn y Dome. Roedd yn dangos yr awyr yn ystod y nos, sut mae dydd a nos yn digwydd a ble mae lleoliad y sêr.
Yna gwelsom y telescope anferth a'i weld yn symud! A cafwyd sioe i egluro popeth sydd yn digwydd yn Jodrell Bank.

day happened, where the stars are located in the sky, and so much more information.
Then we saw the huge telescope! And watched it move. At the end of the day there was a show explaining all that goes on at Jodrell Bank.




Yna fe ddaeth yr eira, diolch am eich cydwethrediad a'ch dealltwriaeth. Dydy o ddim yn benderfyniad dwi yn hoff iawn o wneud.

Then the snow came! Thank you for your understanding and cooperation. It is not a decision I like to make.



Cawsom wasanaeth gan elusen Chloe a Sophie.  Elsuen ar gyfer plant a phobl byddar; ‘Chloe’s and Sophie’s Special Ears Fund’.   Fe wnaeth hi siarad am lyfrau arbennig sydd yn cynnwys plant bach byddar.  Ac fe wnaeth hi yn garedig iawn roi llyfr yr un i bob plentyn yn yr ysgol.

CSSEF (Chloe and Sophie Special Ears Fund) visited school.  They are a Deaf Awareness Charity.  The children had an assembly about special books that have deaf characters.  The charity were so kind and gave every child a book of their choice.



Mae gennym blant sydd wedi bod yn cystadlu neu gymeryd rhan mewn gweithgareddau rhedeg. Mae Poppy ac Olivia wedi bod yn rhedeg y mini Marathon yng Nghaer.
Mae Catrin wedi rhedeg Traws Gwlad yng nghystadleuaeth yr Urdd. Dyma nhw gyda'i medalau. Da iawn chi genod.

We have some good runners here.
Poppy and Olivia have taken part in a Mini Marathon in Chester.
Catrin took part in the Urdd Cross Country race.
Well done girls.






Fe aeth Dosbarth Llygaid Y Dydd gyda'r Cylch i weld sioe Cyw. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yn y sioe ac wedi bod wrth eu boddau yn gweld y cymeriadau yn fyw ar y llwyfan.

Llygaid Y Dydd Class went to see the Cyw show. They really enjoyed it and loved seeing the characters on stage.

Ffair Nadolig – Diolch Diolch Diolch I'r PTA am wneud Ffair Nadolig arbennig unwaith eto. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich Gwaith ac mae eich cefnogaeth chi fel rhieni mor werthfawr. Diolch i bawb.

Christmas Fair – Thank You Thank You Thank You to the PTA for an excellent Christmas Fair. We really do appreciate all the hard work you put into the school. Also a big thank you to all the parents for supporting.
Thank you all.








postterrig@hwbcymru.net

Aeth gweddill yr ysgol i weld pantomeim yn Theatr Clwyd. Mother Goose oedd y panto eleni. Roedd na lawer o chwerthin a joio yn y panto. Mi wnaeth pawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Years 1 to 6 went to see Mother Goose at Theatr Clwyd. There was a lot of laughter and everyone truly enjoyed the panto. I think they ate so many sweets too! All part of the fun.



Wythnos diwethaf gawson ni ginio Nadolig bendigedig.  Fe wnaeth Anti Anna ginio blasus iawn i bawb, er dwi ddim yn siwr faint o blant wnaeth fwyta eu 'sprouts'! Diolch yn fawr iawn i Anna, Karen a Dawn yn y gegin sydd yn gwneud bwyd da bob diwrnod.

Last week we had Christmas Dinner.  It was delicious.  Aunty Anna our fabulous cook worked so hard to make sure that everyone had a lovely Christmas dinner.  Not sure how many children ate the sprouts though!
A big thank you to Anna, Karen and Dawn in the kitchen, they do provide a tasty lunch everyday.





postterrig@hwbcymru.net

Daeth Sw Bae Colwyn i ymweld â blwyddyn 3 a 4. Roedd hyn yn rhan o waith Y Goedwig Law a wnaethon nhw yn y dosbarth.
Gwnaaethom addurniadau gyda papur gwastraff ac adio hadau I'r papur gwastraff. Yn y Gwanwyn byddem yn plannu yr hadau a gobeithio fe wnawn nhw dyfu fel bod y gwenyn ar pili pala yn gallu dod i'n ymweld.
Fe wnaethom ddysgu rhagor am Olew Palmwydd. Mi oedd y plant yn wybodus iawn am effaith Olew Palmwydd ar Y Goedwig Law.
Fe ddangosodd y Ceidwad Sw ap I ni sydd yn dangos os yw bwyd yn cynnwys Olew Palmwydd cynnaladwy neu beidio. Gweithdy diddorol iawn.

Colwyn Bay Zoo visited year 3 and 4. This was part of their class work about the Rain Forest.
We made decorations with waste paper and put seeds in the decorations.
In the New Year we will be planting these seeds and hopefully we will have plants for the bees and the butterflies to visit.
We also learnt more about Palm Oil. The children knew so much about the effects of Palm Oil on the Rain Forest.
The zoo Keeper showed us an app that lets you know if the Pal Oil in certain products is sustainable or not. A very interesting workshop






 postterrig@hwbcymru.net



Sioeau Nadolig
Fe wnaeth y plant ddwy sioe fendigedig 'Dadl Nadolig' a 'Shrek'. Chwarae teg iddynt roedd pob un ohonynt wedi dysgu geiriau ac wedi gwneud perfformiadau arbennig iawn.
Mi oedd y plant wedi mwynhau perfformio.
Dyma chydig o luniau o'r sioeau.
Mae Shrek ar y wefan
https://ysgol-terrig.primarysite.media/

Christmas Shows
We had 2 fantastic Christmas shows. Dadl Nadolig and Shrek. The children did an amazing job on both shows.
They learnt their words so well and they really enjoyed performing.
I hope you enjoyed them as much as we did.
Shrek is on the website to watch.
https://ysgol-terrig.primarysite.media/



postterrig@hwbcymru.net



A diwrnod olaf un fe aeth Meithrin a Derbyn ar drip i Sw Gaer.

On the last day the Llygaid Y Dydd class went off to the Zoo.



 postterrig@hwbcymru.net

Fe gawson nhw ddiwrnod bendigedig. They had so much fun.





Nadolig Llawen Merry Christmas



**Dyddiadau i'ch Dyddiadur**

| Dyddiad i'r dyddiadur – 30/1/2025 | Date for your Diary – 30/1/2025 |
|---|---|
| Rwyf i wedi cael cyflwyniad gan DC Andy Kevan a cefais fraw pa mor beryg yw ffonau symudol i blant. Mae Mr Ashford a finnau wedi ei wâdd i'r ysgol gan bod ei negeseuon mor bwysig i chi fel rhieni. Mae yn rhoi y negeseuon mewn ffordd hwyliog. | Earlier on this term I attended a presentation with DC Andy Kevan. It became apparent how dangerous a mobile phone can be to children. Mr Ashford and myself have been lucky to secure a date for C Andy Kevan to visit school. He does present in a very humorous interactive way but has a very important message to us all. |

| Gweithgareddau | Dyddiadau / Dates | Workshops |
|---|---|---|
| Nol i'r ysgol | 7/1/2024 | Back to School |
| Urdd Hwyl yn y Gymraeg | 8/1/2024 | Urdd Hwyl yn y Gymraeg |
| Pel Rhwyd 5 a 6 Merched Urdd | 23/1/2024 | Girls Netball 5 a 6 Urdd |
| PTA Disgo Distaw | 24/1/2024 | PTA Silent Disco |

| | | |
|---|---|---|
| Cwis Siarter Iaith Bl 2 | 28/1/2024 | Siarter Iaith Quiz yr 2 |
| Cwis Siarter Iaith Bl 3 a 4 | 29/1/2024 | Siarter Iaith Quiz Yr 3 & 4 |
| I'r rhieni<br>DC Kevan – Cybercrime Unit<br>Ar ol ysgol -sut i gadw eich plant ar y we / ffonau symudol | 30/1/2024 | For the parents<br>DC Kevan – Cybercrime Unit<br>After school – how to keep your child/ren safe on the internet / mobile phones |
| Cwis Siarter Iaith Bl 5 a 6 | 3/2/2024 | Siarter Iaith Quiz yr 5 & 6 |
| Gweithgareddau Siarter Iaith | 4/2/2024 | Siarter Iaith Activities |
| Pel Rhwyd Cymysg 5 a 6 Urdd | 11/2/2024 | Mixed Netball 5 & 6 Urdd |
| Dodgeball Ysgolion Bach Sir Y Fflint | 13/2/2024 | Dodgeball Small School Competition |
| Ymweliad PC Mark Jones | 14/2/2024 | PC Mark Jones Visit |
| Cau am Hanner Tymor | 21/2/2024 | Close for Half Term |

## Nol i'r Ysgol Dydd Mawrth, Mawrth 4ydd 2024

## Back to School Tuesday 4 March 2024

- Mae llawer o wybodaeth i gael ar ein wefan.  Mae pob llythyr yn cael ei uwchlwytho o dan Newsletters

Côd QR ar gyfer Llythyrau
QR code for Newsletters

- Mae'r calendar wedi ei ddiweddaru ar y wefan.  Cofiwch os nad ydych yn rhy siŵr am ddyddiadau maent i gyd ar gael ar y wefan: Calendar | Ysgol Terrig
Bydd dyddiadau eraill yn cael eu ychwanegu yn fuan, unwaith mae trefniadau wedi cael eu gwneud

Côd QR ar gyfer Calendar
QR code for Calendar

Addysg Gorfforol / PE

| Diwrnod /Day | Bore | Prynhawn |
|---|---|---|
| Dydd Llun / Monday | | Meillion 3 a 4<br>Clychau'r Gog 5 a 6 |
| Dydd Mawrth / Tuesday | | |
| Dydd Mercher / Wednesday | Lili Wen Fach 1 a 2 | |
| Dydd Iau / Thursday | Llygaid Y Dydd Meithrin a Derbyn | |
| Dydd Gwener / Friday | | |

**Dillad Addysg Gorfforol**
Crys-t gwyn / crys-t Ysgol Terrig neu Crys-t dathlu 70
Siwmper Ysgol
Leggings/joggers/siorts du neu las

Clybiau ar ôl Ysgol tan 4pm

| Diwrnod /Day | Ar ôl ysgol |
|---|---|
| Dydd Llun / Monday | Chwaraeon blwyddyn 3-6 |
| Dydd Mawrth / Tuesday | |
| Dydd Mercher / Wednesday | Celf blwyddyn 3-6<br>Celf Derbyn 1 a 2 |
| Dydd Iau / Thursday | |
| Dydd Gwener / Friday | |



postterrig@hwbcymru.net